



**UMAber**  
**Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**  
**8 Mai 2014**  
**Ystafell Bwyllgor**

---

**Presennol:**

Ioan Evans (IE) – Llywydd UMAber, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr  
Mared Ifan (MI) – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr  
Laura Dickens (LD) – Swyddog Cymorth i Fyfirwyr UMAber ac Ymddiriedolwr  
Grace Burton (GB) – Swyddog Addysg Myfyrwyr UMAber ac Ymddiriedolwr  
Olivia Prewett (OP) – Swyddog Gweithgareddau Myfyrwyr UMAber ac Ymddiriedolwr  
Stephen Meachem (SM) – Ymddiriedolwr Allanol UMAber  
Elfyn Jones (EJ) – Ymddiriedolwr Allanol UMAber  
John Glasby (JG) – Prif Weithredwr UMAber  
Catrin Hopkins (CH) – Swyddog Cyllid UMAber  
Andrew Morwood (AM) – Rheolwr Gwasanaethau'r Aelodaeth UM Aber

**Yn gwasanaethu:**

Anmarie Evans – Clerc i Fwrdd Ymddiriedolwyr UMAber  
Jacob Dafydd Ellis, Miriam Williams a Will Atkinson – Swyddogion Ymddiriedolwyr sydd ar ddechrau yn eu rôl (fel sylwedyddion)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Estelle Hart – Ymddiriedolwr Allanol UMAber  
Christopher Lloyd-Jones (CLJ) – Ymddiriedolwr Ôl-raddedig UMAber

**2. Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2014**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2014 fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.  
Cynigiwyd: IE  
Eiliwyd: OP

**3. Materion yn Codi**

Awgrymwyd bod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer y Swyddogion yn y cyfansoddiad ymhell o fod yn gyfoes, ac o'r herwydd nid ydynt yn berthnasol. Nododd JG eu bod yn edrych ar hyn fel rhan o Adolygiad Llywodraethiant, a dywedodd y byddai'n syniad da i DPA Swyddogion gael eu gosod yn ystod y cyfnod sefydlu dros yr haf.

**Nodwyd**

Digwyddiadau - mae'r Bwrdd am gynnal arolwg wedi'i strwythuro i sefydlu pa fath o ddigwyddiadau mae myfyrwyr eu heisiau. Hysbysodd JG y Bwrdd bod grŵp ffocws at y diben hwn wedi cael ei drefnu yn Ebrill, ond mai ychydig iawn o fyfirwyr fynychodd y digwyddiad. Bydd Tony Bickley yn mynychu Fforwm Digwyddiadau Cenedlaethol ym Medi, lle bydd cyfle iddo gyfranogi mewn trafodaethau a darparu adborth bellach ar dueddiadau cenedlaethol.

**Gweithred - JG (Cyfredol)**

Nododd IE nad oedd wedi cyflwyno'r cynnig ar Spar i'r Cynulliad, oherwydd colledion masnachol ac agor y siop yn Llanbadarn. Dywedodd JG fod y siop yn perfformio'n dda ar hyn o bryd, a chytunodd i ddarparu diweddariad ar sefyllfa bresennol y siop yn y cyfarfod nesaf.

#### **Gweithredu - JG**

#### **4. Adroddiadau'r Swyddogion**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd ddarllen drwy'r adroddiadau a ddarparwyd gan y Swyddogion. Esboniodd y Cadeirydd nad oedd wedi cwblhau adroddiad, ond rhoddodd grynodedb o'r hyn mae wedi bod yn ei wneud. Esboniodd, ers ei etholiad, iddo fod i Gynadleddau UCM Cymru ac UCM y DU, ac yn brysur gyda'r digwyddiad Rygbi 7-bob-ochr, oherwydd bod un o'n haelodau staff wedi dioddef profedigaeth deuluol. Hefyd hysbysodd y Bwrdd ynglŷn ag ennill Gwobrau UCMC am Dîm Swyddogion y Flwyddyn, ac Ymgyrch y Flwyddyn am eu gwaith ar Dai a Llety.

Holodd y Bwrdd pam ei bod yn angenrheidiol i Swyddog gyflenwi rôl aelod staff, ac esboniodd IE oherwydd iddo fod yn Swyddog Gweithgareddau llynedd, fod ganddo brofiad a gwybodaeth benodol i'w alluogi i helpu allan. Serch hynny, nodwyd bod camau wedi cael eu cymryd i atal hyn rhag digwydd eto, drwy ddatblygu gwybodaeth staff ar draws y mudiad.

#### **Nodwyd**

#### **5. Adroddiad Ariannol**

Tywysodd CH y Bwrdd drwy'r adroddiad roedd hi wedi'i gyflwyno o'r blaen, gan nodi bod gennym wahaniaeth negyddol o £64k yn erbyn y gyllideb, yn bennaf oherwydd recriwtio llai o fyfyrwyr a'r ffaith fod 2,000 o fyfyrwyr wedi symud i Lanbadarn. Esboniodd CH eu bod wedi gwneud cryn lawer o waith ar Ddyledion Drwg, a'u bod wedi lleihau dyddiau dyledwyr o 132 i 92. Hefyd esboniodd CH ein bod wedi cynnal digwyddiad Rygbi 7-bob-ochr llwyddiannus, ac ar ôl ail-ddarogan cyllideb diwedd y flwyddyn, mae'n dangos elw o £1k

Nododd EJ y dylem fod yn adolygu'r cyllidebau'n ffurfiol bob chwarter, a hoffai weld y fantolen/dogfen llif arian ar gyfer yr Elusen a'r Cwmni wedi'i rhannu.

#### **Gweithredu - CH**

Diweddarodd CH y Bwrdd ar gadarnhau'r Cyfrifon ar gyfer 2011/2012. Mynegodd EJ bryder bod hyn yn dal i fynd rhagddo, a nododd fod rhaid i ni osod dyddiad cwblhau i'r archwilwyr. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ffaith bod y broses dendro am ffi gosod, a gofynnodd am arbenigedd SM ar y mater hwn. Cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod ar wahan, cynted â phosib, i fynd i'r afael â hyn.

#### **Gweithredu – JG/CH**

#### **6. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Rhoddodd JG grynodedb o'r adroddiad a gyflwynodd yn flaenorol. Roedd ei adroddiad yn ymdrin â Digwyddiadau, Strwythurau Democrataidd, Arolwg iGrad, Llanbadarn a'r DPA Gweithredol. Diolchodd i IE ac OP am eu gwaith caled dros benwythnos Rygbi 7-bob-ochr, a rhoddodd sicrwydd i'r Bwrdd y byddai aelodau staff mewn lle pe baem ni yn yr un sefyllfa ryw dro eto.

O ran y Cynllun Gweithredol, gofynnodd EH y dylid ychwanegu colofn i ddweud pwy sy'n gyfrifol am bob eitem. Hefyd gofynnodd EH bod y Prif Weithredwr, yn ei adroddiadau yn y dyfodol, yn nodi unrhyw ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol, ynghyd â rhestr o gyfarfodydd a fynychwyd.

**Gweithredu - JG**

## **7. Adolygiad Cydymffurfiaid**

Rhoddodd JG drosolwg o'r adroddiad newydd hwn a'r rhesymeg y tu ôl iddo. Nododd, ers ei gwblhau, ei fod wedi meddwl am ychwanegu adran ar gyflogadwyedd. Gofynnodd MI i JG ychwanegu'r Ddeddf Iaith Gymraeg gyfoes fel adran arall.

**Nodwyd**

## **8. Adroddiad Etholiadol**

Tywysodd AM aelodau'r Bwrdd drwy'r adroddiad a gyflwynodd eisoes, gan esbonio bod yr Etholiadau ar y cyfan yn llawer llai trafferthus na llynedd, ond ein bod wedi cael rhywfaint o adborth sy'n awgrymu bod yr ymgyrchu eleni wedi bod yn ddi-fflach, felly byddwn yn ymchwilio i hyn.

Nododd GB y dylai AM basio'r adroddiad hwn drwy'r Pwyllgor Etholiadau cyn ei gyflwyno i'r Ymddiriedolwyr.

**Nodwyd**

## **9. Trafodaeth am Lywodraethiant**

Darparodd AM y Bwrdd ag adroddiad ar fabwysiadu model newydd ar gyfer llywodraethiant mewnol. Darparodd EH y sylwadau canlynol cyn y cyfarfod:

Mae angen cyfrifoldeb dros gydraddoldeb ar lefel y Bwrdd. Hoffwn awgrymu bod pwyllgor yn cael ei greu i symud y materion hyn ymlaen.

**Gweithredu - AM i ychwanegu at y model newydd**

Ydy'r papur wedi cael ei drafod gyda'r uned Lywodraethiant yn UCM?

Cytunodd y Bwrdd â hyn, a bydd AM yn cysylltu ag UCM.

**Gweithredu - AM**

Roedd anfodlonrwydd ynglŷn â phenderfynu ar gadeiryddion pwyllgorau ymlaen llaw; mae angen i ni benodi ar sail sgiliau.

**Nodwyd, a chaiff hyn ei drafod yn y Cyfarfod Llywodraethiant ad hoc nesaf.**

Nododd EJ fod y papur hwn yn fan cychwyn da, ond mae angen mwy o drafodaeth. Cytunwyd y byddai Is-grŵp llai yn cael ei sefydlu gyda dau Ymddiriedolwr Allanol i edrych ar Lywodraethiant, er mwyn canfod a oes gan y

Bwrdd hwn awdurdod dros y cwmni Masnachu, a hefyd i edrych ar y rheoliadau cyllidol cyfredol. Cymeradwyodd y Bwrdd yr aelodau canlynol i fod yn bresennol ar yr Is-grŵp hwn:

Elfyn Jones, Stephen Meachem, John Glasby, Andrew Morwood a Catrin Hopkins, IE neu'r Llywydd cyfredol a GB.

Bydd AE yn gwirio pryd bydd pobl ar gael, ac yn trefnu cyfarfod cynted â phosib.

#### **Gweithredu - AE**

Yn y papur Llywodraethiant, AM i newid Aelod Allanol i Ymddiriedolwr Allanol ar gyfer cadeiryddion posib ar gyfer is-bwyllgorau.

#### **Gweithredu - AM**

### **10. Adolygiad o'n Darparydd Bancio**

Darparodd EH sylwadau ar yr adroddiad uchod. Nododd:

A fyddai modd i ni alw am adolygiad arall, gyda phryderon moesegol yn cael blaenoriaeth?

#### **Nodwyd**

Esboniodd CH y rheswm dros yr adolygiad, gan fod hwn yn un o'i hamcanion blynyddol, a'i fod yn rhywbeth nad oedd wedi cael ei wneud ers blynyddoedd. Gan ein bod ni'n gwario miloedd o bunnoedd bob blwyddyn ar daliadau banc, ystyriwyd y byddai'n ddoeth adolygu hyn er mwyn sicrhau ein bod ni'n cael gwerth am ein harian gan ein darparydd presennol. Nododd EJ y gallai hwn fod yn ymarferiad adolygu/tendro 3 blynedd, ac y gallai adolygiad moesegol fod yn rhan o hynny.

**Cytunodd y Bwrdd mai dyma oedd y ffordd ymlaen.**

### **11. Amserlen ar gyfer cynhyrchu/dosbarthu papurau cyfarfodydd**

Yn dilyn sylw a wnaed eisoes gan EH, cytunwyd y byddai papurau'n cael eu darparu 2 wythnos cyn dyddiad y cyfarfod. Cânt eu dosbarthu 1 wythnos cyn y cynhelir y cyfarfod, ac unwaith maen nhw wedi cael eu hanfon ar ffurf electronig, ni chaniateir adroddiadau na chyflwyniadau pellach i'r Bwrdd.

#### **Cytunodd y Bwrdd ar hyn**

#### **Unrhyw fusnes arall**

Gan ddilyn ymlaen o'r cyfarfod blaenorol ynglŷn â'r cynnig a basiwyd yn y cynulliad i wneud clybiau a chymdeithasau'n gwbl ddwyieithog, cytunwyd y byddai MI ac OP yn cwrdd i lunio templedi a gellir eu defnyddio gan Glybiau a Chymdeithasau sy'n ymarferol ac yn fforddiadwy. Nododd JG y byddai rhaid i unrhyw gostau ychwanegol yn sgil hyn ddod o rywle arall, gan nad oedd wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb, ac y byddai'n fyrbwyll i'r mudiad gytuno i hyn heb ddeall yn llawn yr oblygiadau ariannol. Caiff yr wybodaeth hon ei darparu ar gyfer cyfarfod nesaf yr Ymddiriedolwyr.

#### **Gweithredu - MI/OP**

Cytunwyd y byddai AE yn trefnu hyfforddiant ar gyfer staff ar Gydraddoldeb.

#### **Gweithredu - AE**

Gofynnodd MI ein bod ni'n rhoi sylw i sut rydym yn cyfathrebu Cyfarfodydd Cyffredinol i fyfyrwyr, o gofio bod cyn lleied o bobl yn eu mynychu.

**Nodwyd**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf: 10am, ddydd Gwener 18 Gorffennaf, yn Ystafell y Pwyllgor.**